

***I mi, mae paentiadau de Jong yn datguddio'n ffyrnig y perfedd o fodolaeth, y gwrthddywediadau o dybiaeth gymdeithasol a'r harddwch a'r hylltra wrth fod yn annymunol. Yng ngoleuni hyn a gwaith de Jong, rwy'n rhannu dyfyniad o lyfr yr wyf yn y broses o ysgrifennu sy'n cofio storm cyfryngau adain dde y cefais fy hun ynddo dair blynedd yn ôl, rhywbeth yr wyf yn dal i geisio ei lywio. Roeddwn i eisiau rhannu hyn fel sgwrs o fewn y cyd-destun yr hyn sy'n digwydd pan fydd gweithrediad benywaidd yn cael ei leihau i olygfa a'r holl wrthyriad ac arwynebolrwydd gorfodol a all wasgaru ynddo mor hawdd.***

## **STORM Y CYFRYNGAU neu SUT I DDINISTRIO DOMINYDDES?**

Ar y 30ain o Dachwedd 2018, ysgrifennodd The Daily Mail erthygl ar-lein ddigymell ac annisgwyl amdanaf dan y teitl '*POLITICAL dominatrix who uses mind games to humiliate her submissives reveals how she focuses her unique skills on white, right-wing men in order to turn them into socialists*'.

Daeth yr erthygl o gyfweiliad bach iawn yr oeddwn wedi'i wneud mewn man arall ac ar ôl ei ddarganfod roeddwn wedi dod o hyd i hiwmor yn natur camp y rag adain dde yn fy ngwneud yn syfrdanol. The Daily Mail yw'r papur newydd ar-lein a ddarllenir fwyaf yn fyd-eang. Cyn i'r rhyngwyd amrywiaethu adeiladwaith y cyfryngau, roedd ymhelaethiad y tabloidau wedi bod yn un o fy mhleserau euog, mae'n debyg mai hwn yw fy hoff fath o bornograffi. Roeddwn i wedi gorchuddio wal yr ystafell wely o fy ardegau gyda thoriadau o'r penawdau tabloid mwyaf hurt a oedd yn datgan annormaledd fel adloniant aflan ac oeddwn hyd yn oed wedi gwisgo bathodyn a ddywedodd '*Hated by The Daily Mail*' yr oeddwn yn ei wisgo â sêl. Nawr roedd yn ymddangos bod fy mywyd wedi dod yn gylch llawn ac roedd llygedyn o fod yn falch ohonof fy hun am gythruddo sefydliad mor farbaraidd.

Pan ddechreuais ddominyddu am y tro cyntaf, roedd yn gyffrous sylweddoli bod gen i bŵer dros ddyn. Roeddwn i eisiau deall yn llawn pa mor bell y gallai hynny fynd ac rydw i'n dal i fod eisiau deall. Yn aml, bydd dynion ymostyngol yn dweud wrth eu dominyddesau y byddant yn gwneud unrhyw beth i'w gwneud yn hapus, byddant yn dilyn eu gorchmynion. Mae dilyn gorchmynion yn dod yn weithgaredd rhywiol. Mae hyn yn fy swyno, yn enwedig pan fyddai gan y dynion ymostyngol y byddwn i'n cwrdd â nhw ffetisiau a ffantasiau heb unrhyw gydberthynas â'u gwleidyddiaeth bob dydd. Fodd bynnag, nid oedd yn hir yn fy nghyfnod fel dominyddes pan ddaeth yn sarhaus cwrdd â dyn ceidwadol sydd am alldaflu dros ei ddiddordeb mewn 'menywod cryf', dyn nad yw fel arfer yn credu yn hawliau'r gweithwyr rhyw maent yn cyflogi neu'r llu arall o lafur cyffredinol o'r anghydraddoldebau y mae'n gwrthod cydnabod ond eto'n elwa ohonynt. I osgoi hyn byddwn yn chwarae gyda gwleidyddiaeth a gwerthoedd rhai o fy unigolion ymostyngol wrth eu cyfarfod ond yn rhy aml o lawer daeth hyn yn derfyn caled i lawer o'r dynion. Rwy'n dal i'w gael yn hynod ddoniol ac yn fy ugeiniau cynnar roeddwn yn llawer mwy delfrydyddol yn fy nodau i newid barn unigolyn ymostyngol. P'un a oeddwn yn wirioneddol gredu y gallwn neu'n gallu newid gwleidyddiaeth dyn, nid dyna'r pwynt mewn gwirionedd - y pwynt yw ei fod yn difyrru fi o ran pa mor ddigrif ydyw ac i'm codi am foment o gymhlethdodau'r deinamig gwaith rhyw. Mae ffetis yn plygu realiti. Dyma beth oedd llawer o fy nofel Dining with Humpty Dumpty yn ymwneud â, a'r cyfweiliad yr oeddwn wedi'i wneud a daniodd y llu o sylw yw'r hyn a'i hysgogodd. Ni nodais i hyn fod yn ddadleuol nac i ennill sylw i mi f fy hun, yn lle hynny, yn syml, mae'n ddigwyddiad rheolaidd y mae'n rhaid i mi ei wynebu wrth ddominyddu dynion traddodiadol, mae'n syniad sy'n fy swyno ac mewn ffordd yn fy nghasglu rhyw fath o fodd o ddianc a rheolaeth mewn deinameg arlliw iawn.

Roedd erthygl y Daily Mail wedi'i symleiddio ac yn ddramatig ar yr un pryd ond yn rhyfedd nid oedd yn arbennig o ragfarnllyd. Roedd yn ymddangos bod y newyddiadurwr wedi

ysgrifennu rhestr o ddyfyniadau o'r erthygl flaenorol ond roedd yn ymddangos yn ddi-farn, fodd bynnag, trwy strwythur golygfa anochel y tabloid a ategodd apêl warthus y stori. Er nad oedd yr erthygl yn ffeithiol a bod llawer o'r wybodaeth amdanaf wedi ystumio, roeddwn yn ei chael hi'n ddoniol iawn i fodoli yn y papur newydd. Oherwydd cylchrediad torfol y papur newydd ni fu'n hir nes i'r 'newyddion' hwn ledu ac aeth papur newydd The Sun ymlaen i redeg y stori yn cyhoeddi '*MAN-IPULATOR 'Political dominatrix' uses mind games instead of whips and chains to humiliate white men and turn them into socialists*'. Yna aeth y stori ddiwygiedig yn firaol - adgyfogyd yr erthygl yn eang, yn amrywio o (i enwi ond ychydig) Gwlad Pwyl i Fecsico i'r Ffindir i Awstralia i Ffrainc i Japan ac yna i amryw o wefannau newyddion Americanaidd.

Dechreuais dderbyn e-byst o gylchgronau, papurau newydd, blogiau, podlediadau, sioeau teledu a radio o bob cornel o'r byd yn gofyn am gyfweiliadau, ac anwybyddais bob un ohonynt. Cysylltodd Fox News â mi ynglŷn ag ymddangos ar sioe siarad. Wrth ymchwilio i westeiwr y sioe dan sylw, daeth yn amlwg ei fod yn agos at Trump ac yn ddiweddar wedi dod o dan graffu anhygoel o amwys am gael perthynas y tu allan i'w briodas a gadael ei wraig, mam ei blant am fenyw arall- yn anghytuno â'r uned deuluol. Wrth edrych ar ei wyneb ar-lein mae'n debyg i frics mewn lliw a siâp gyda gwefusau sydd bron ddim yn bodoli a dannedd sy'n ffrwydro'n anghyffyrddus mewn cyferbyniad gyda'u gwagedd. Wrth ddarllen yr e-bost penodol hwnnw, y cyfan a deimlais oedd hiwmor penfeddw o ba mor afresymol oedd y sylw hwn.

Fodd bynnag, cyn bo hir daeth natur camp y sylw yn ddideimlad i mi a dechreuodd rhywbeth mwy bygythiol ddod i'r amlwg. Roedd yn rhaid i mi droi fy ffôn i ffwrdd. Roeddwn i mewn gwirionedd wedi cael gwybod am yr erthygl ar ôl i mi dderbyn e-bost gyda bygythiadau o drais trwy e-bost gan ddyn anhysbys a gyhoeddodd ei addoliad dros Trump oherwydd gallu'r arlywydd i 'ffwcio merched ffit'. Rwyf wedi derbyn bygythiadau o drais ac ymosodiad o'r blaen, mae'n ymddangos ei fod yn gymharol ddiarnan pan oedd yn bodoli ar-lein ond roedd y cyfathrebiadau hyn wedi bod yn ysbeidiol ac fel arfer yn fregus yn eu cystrawen, fodd bynnag, roedd hyn yn wahanol iawn.

Dechreuodd fy nghyflwr emosiynol deimlo'n orwyllt, nid oedd hyn oherwydd fy mod yn teimlo fy mod yn cael fy natgelu mewn unrhyw ffordd ond yn hytrach oherwydd bod yna ddisgyrchiant newydd o greulondeb ar-lein a ddaeth i achosi parlys sydyn. Gadawodd fi mewn gofod o or-noethi, bregusrwydd newydd nad oeddwn wedi'i ddisgwyl na'i gynllunio lle daeth sgriniau dirifedi ym mhob rhan o'r byd yn sydyn yn ymwybodol o fy modolaeth mewn gorchudd o newydd-deb rhad ac nid o ffocws llwyr ar gyfer dilyniant ac o fywyd wedi'i wir fyw.

Darganfyddais gyfres o drafodaethau amdanaf ar fforymau alt-dde, o blaid reiffl, actifiaeth hawliau dynion, fforymau bocsio a chryfhau corff. Byddai aelodau'r gwefannau hyn yn brwydro yn erbyn pwy allai ddadadeiladu pob milimetr o ddimensiynau fy wyneb yn well i grynhoi nad oeddwn yn gallu cael fy nhreisiol rhywiol oherwydd fy mod yn edrych fel ceffyl gordew, bron fel pe baent yn cystadlu â'i gilydd i ddatgan diflastod llwyr fy nghyflwr benywaidd. Dywedodd un dyn fy mod i mor dew, bod hyd yn oed llabedi fy nghlustiau yn dew. Soniodd yr erthygl fy mod i'n hil gymysg, cafodd hyn ei ddiystyru'n gryf, mae'n debyg i'r allweddellau hyn nad oeddwn i mewn gwirionedd yn gymysg o gwbl ac yn lle hynny, yn lle hynny, dim ond yn ceisio sylw fel rhyfelwr cyfiawnder cymdeithasol ydw i. Trafododd eraill ar y fforymau hyn sut y byddai'n well ganddyn nhw gael *eu rhwygo gan lewod ag AIDS yn anialwch Affrica* na fy ffwcio, hyd yn oed os mai fi oedd y fenyw olaf yn fyw. Roedd enghreifftiau eraill yn amrywio o 'Putain yn ceisio paentio ei hun fel rhywbeth mwy na 'mond fleshlight', neu '*Fe allech chi gerdded i mewn i unrhyw walmart yn y wlad a chael hogan fel yna ar ei gliniau am becyn o sigarêts.*' neu '*3, mae hi'n dri, mae hi reit uwchlaw pobl â syndrom Down.*' Roedd fy hoff sylw gan fenyw ddeurywiol ryddfrydol o'r de dwfn a honnodd ei bod yn fy ffwcio nes fy mod yn sgrechian '*Lladrad yw trethiant.*'

Roedd yna hefyd ddisgrifiadau llai creadigol o fygythiadau trais uniongyrchol a gefais yn uniongyrchol i'm cyfrif e-bost a rhai a fyddai, yn anffodus, yn dal fy sylw dros y rhyngwyd. Dechreuais boeni am fy nheulu. Rwy'n gwybod bod incels yn camweddu allan o'r sgrin ac y byddant yn mynd allan o'u ffordd i annog poen yn bersonol nes bod eu chwiliadau rhyngwyd yn dod yn gyffyrddadwy. Mae'n hawdd dod o hyd i fy chwaer a mam ar-lein. Nid wyf am i'm penderfyniadau eu niweidio. Nid oedd yr orbryder llym hwn yn teimlo fel bryder afresymol.

Ar wahân i fy nghorff, neu i'w roi'n blwmp ac yn blaen fy ffrwythlondeb tybiedig /apêl rywiol, gwawdiwyd fy neallusrwydd a fy swydd fel darlithydd sefydlog mewn prifysgol ag anghrediniaeth, honnodd pleidleiswyr Brexit y dylwn gael fy niswyddo ar unwaith am yr hyn yr oeddent yn ei ddehongli fel fi yn dysgu gwerthoedd chwithig ar 'arian y llywodraeth', gan syfrdanu cenedlaethau'r dyfodol i'r hyn yr oeddent yn ei ddeall fel gwrthryfel comiwnyddol, misanthropi ar sail rhywedd a hiliaeth lwyr. Cysylltodd y brifysgol lle rydw i'n dysgu gyda phryder ond hefyd gyda chefnogaeth. Roedd hyn yn sylw annisgwyl yn y cyfryngau i'r brifysgol ac fel bron popeth arall a ysgrifennwyd amdanaf, cafodd y wybodaeth am fy rôl addysgu ei newid trwy ddweud fy mod i'n dysgu gwyddoniaeth wleidyddol pan yr wyf yn dysgu meddwl yn feirniadol. Mae fy ymarfer addysgu yn cynnwys gweithio gyda fy myfyrwyr i ddeall manylion mân gwleidyddol pob dydd. Nid wyf yn eistedd o gwmpas yn eu credorfodi i theori Farcsaidd ond yn lle hynny rwy'n trafod sut mae pob myfyriwr yn adeiladu pŵer, awydd a dylanwad gyda'u gwaith.

Ar un adeg anfonodd dyn Americanaidd e-bost ataf i ofyn imi sut roedd y brifysgol wedi ymateb a dywedais wrtho fy mod yn dysgu mewn ysgol gelf ac nid yn America. Roedd yn ymddangos iddo gysylltu â mi er mwyn ei ddifyrrwch ei hun, i ddyfalu sut y byddai sefydliad yn delio â sgandal o'r fath ac a oeddwn wedi cael fy niswyddo ai peidio.

Ysgrifennodd arlunydd gwrywaidd gwyn o Brydain o'r enw Simon Linke a gafodd beth llwyddiant i wneud ymarfer cyfan o baentio cloriau Artforum a'r hysbysebion ar gyfer arddangosfeydd eraill ynddo mewn paent olew ers canol yr 80au postiad Facebook anghymesur i'w ddilynwyr, pob un ohonynt roedd yn ymddangos ei fod o gyfalaf diwylliannol tebyg iddo am fy niffyg gwreiddioldeb a thalent.

Roedd yn ymddangos eu bod yn fy nefnyddio fel math o grynhoad o'r hyn a oedd bellach yn 'anghywir' gyda'r byd celf, orbit nad oeddwn i wedi bwriadu ymuno ag ef ac un nad oeddent nhw efallai wedi cadw i fyny ag ef. Gadawyd cannoedd o sylwadau gan ddynion a oedd i gyd yn edrych yr un fath ag ef gyda sbectol ymylon du llydan neu ambell farf drefol undonog. Ymunodd ychydig o ferched, rhybuddiodd rhai hyd yn oed y dynion am eu tonau misogynistaidd yr oeddent yn eu hanwybyddu.

Torrodd un dyn llwyd a phinc i mewn trwy ddweud; *Rwyf wedi adnabod ychydig o'r bobl hyn ar hyd y ffordd, ac ym mron pob achos roeddent yn artistiaid hunan-gasáu yn beio methiant artistig ar artistiaid eraill. Gall casineb fod yn danwydd pwerus ar gyfer amrywiaeth o ddyheadau, gwleidyddiaeth sy'n ffynnu'n arbennig ar gasineb, ond o'r diwedd mae gwladwriaeth wrthwynebol yn anghynladwy ac yn wanychol. Trist dweud, ond mae'n debyg na fydd yr athro yma yn para'n hir. Yna mi oedd yna sylwadau fel Rwy'n parchu dewis Reba i wneud pa bynnag gelf y mae hi ei eisiau. I leisio pa bynnag farn y mae hi eisiau. Dwi jyst ddim yn ei hoffi. Dwi ddim chwaith yn hoffi celf wedi'i gwneud o beli o wllân wedi eu stwffio i fyny eich ffooff neu'n stradlo toeau yn noeth neu'n rhedeg o gwmpas gyda'ch bronnau allan yn protestio pobl sy'n edrych ar eich bronnau. Yn amlwg rydw i'n or-symleiddio ond dwi eisiau gweiddi 'stopiwch ffycin dangos i ffwrdd'. Paciwch ef i mewn! Yna roedd 'Mae hi'n eithaf brawychus...'* Neu yn fwy blwmp ac yn blaen 'O ffwc na'.

Cysylltais ag arlunydd cloriau ArtForum i gwrdd â mi, gan ofyn iddo drafod gyda mi'r hyn yr oedd wedi'i ennyn. Gwrthododd â llwfrdra a guddiodd yn bathetig. Gofynnais iddo a oedd ei

waith erioed wedi ei roi mewn perygl ac ni wnaeth erioed ateb. Nawr, pryd bynnag mae gen i ddarlleniad neu sioe gelf rwy'n gwneud ymdrech i'w wahodd. Cysylltais â'i oriel yn gofyn iddo ddarllen, gan ddweud y byddai ei waith peryglus yn ychwanegu haenau gwych at fy ymarfer. Yn yr e-byst hyn, gofynnais i'r dyn hwn a'i oriel i feithrin ei hun i ffwrdd o sgrin. Yn anffodus, ni chefais ymateb erioed gan ei ddelwyr. Ymatebodd yr arlunydd gan ddweud nad oedd eisiau imi ei ddominyddu. Nid oeddwn erioed wedi bod ag unrhyw fwriad i wneud hynny nac wedi sôn unrhyw beth amdano, ond dyma sut y penderfynodd ddarllen fi.

Ar ben arall y sbectrw m hwn daeth Tom Harwood, bachgen hoyw gwyn o Loegr yn ei ugeiniau cynnar sy'n sylwebydd gwleidyddol, ymgyrchydd brwd dros yr ymgyrch Gadael Ewrop ac addolwr Margaret Thatcher. Fe lambastiodd sylwadau ysgytiol amdanaf i'w gynulleidfa ar-lein sydd i gyd yn edrych bron yn hollol debyg iddo, ffurfiad o ddyn hoyw gwyn sy'n ymddangos yn gymharol hetero ar wahân i'r aeliau sydd wedi eu plycio ychydig, pob un wedi'i eni ar ôl 1993. Siwtiau, jîns a chrysau-t. Efallai Converse ar y penwythnos. Masc am masc. Dyma'r dynion hoyw sydd ag addoliad sy'n digalonni am Britney Spears fel menyw drasig, well parch at Ariane Grande fel menyw giwt a di-farn, ac addoliad arwynebol o Drag Race cyhyd â bod y breninesau drag yn tawelu ystrydebau yn hytrach na'u herio. Byddai dynion ag enwau fel Josh, James, Connor, Michael, Sam a Daniel yn gadael sylwadau fel *'Mae'r bar wedi cael ei ostwng yn dda ac yn wirioneddol os ystyrir bod y ffycin twpsyn hyn yn ddarlithydd wel am wastraff llwyr o le'* neu *'Yn ddwfn y tu mewn mae hi'n crefu gwneud brechdanau ar gyfer Chad'* neu *'Mae mwyafrif y 'dommes' hyn mewn gwirionedd yn ymostyngar tuag at ddynion - a dyna pam y mae'n rhaid eu talu er mwyn ymgymryd â'u rôl ddominyddol oherwydd nad yw'n dod yn naturiol iddyn nhw'*. Fe wnes i hefyd wahodd Tom Harwood i gwrdd â mi, ac mi gytunodd, ond a fyddai bob amser yn dweud wrthyf ei fod yn rhy brysur pan awgrymais ddyddiad. Mae bellach yn ymddangos ar sioeau teledu newyddion amser brig yn cefnogi safbwynt yr ochr dde. Yn ystod protestiadau Black Lives Matter yn 2020 ysgrifennodd erthygl ar gyfer The Telegraph yn ei ddisgrifio fel 'gwenwynig a chyfogyld' ac nad oedd y DU wedi'i hadeiladu ar gyfer 'eithafoedd hysterig' ac mewn gwirionedd roedd hwn yn 'fewnforyn' o'r Unol Daleithiau. Mae ei gefnogwyr yn twinks y mae'n ymddangos bod gan bob un ohonynt ddim ond gwallt ar eu pennau a'u haeliau gyda chroen lliw eog wedi'i or-goginio. Ers fy nghyflwyniad annymunol iddo, rwyf wedi bod yn dilyn ei yrfa sydd, yn anffodus, yn ymddengys ei bod yn un o don ddiymwad i ddylanwad glanweithiol creulon.

Roedd gwefannau eraill lle cafodd fy ngwleidyddiaeth eu rhoi ar brawf, tudalennau a thudalennau ar Reddit lle ceisiodd pobl herio dilysrwydd fy sosialaeth, rhai yn nodi pe bawn i'n sosialydd go iawn byddwn yn gweithio am ddim. Ar Twitter, cyhuddodd adran o Americanwyr gwyn poenus o ynysig fi o fod yn berson cymdeithasol a ddefnyddiodd Farcsiaeth fel ffasiwn. Nid wyf yn teimlo'n euog am fwynhau mynd i bartion ac rwy'n dirmygu'r diwylliant hwn o oruchafiaeth ddeallusol sydd wedi'i guddio fel nihiliaeth ffasiynol a heb bleser. Roedd yna sylwadau hefyd fod fy ngwaith yn anfoesegol gan y gymuned kink a phobl eraill o fyd BDSM yn cysylltu â mi gyda chanmoliaeth. Yna roedd yna rai ar y chwith a wnaeth fy namnio am fod yn weithiwr rhyw gyda llwyddiant, a benderfynodd fy marnu fel nad oeddwn i'n pryderu am weithwyr rhyw eraill y mae eu gwaith yn fwy heriol yn gorfforol ac yn feddyliol. Mae sut a ble mae'r dyfarniad nad wyf yn pryderu am y gweithwyr hyn yn deillio ohono, neu fy mod i'n credu bod fy ngwaith yn anoddach nag y mae eu gwaith nhw yn fy labelu mewn ffordd na allaf ei amgyffred ac yn un sy'n peri gofid mawr i mi.

Ymddangosodd sgysiau eraill lle gwnaed penderfyniad gan ddynion ar-lein fy mod yn rhoi'r hyn yr oedd y dynion adain dde eisiau ac felly oeddwn yn ferch wirion. Byddai eraill yn fy amddiffyn ond roedd y cyfan yn ymddangos yn rhy chwerthinllyd pan roedd cyd-destun fy ngwaith wedi'i godi mor ysblennydd o fy rheolaeth i mewn i gyffrous pur. Erbyn hyn, roeddwn i'n cael fy nhrin fel pe bai fy nhrefn ddynoliaeth gyfan yn cael ei enghreifftio gan y trefniant hwn o frawddegau aflan a lluniau hynod amheus ohonof fy hun mewn amryw o ddigwyddiadau a ddarganfuwyd ar-lein neu rai rhywiol awgrymog yr wyf wedi'u cymryd fy hun. Yn lle bod yn bod dynol roeddwn yn dudalen rhyngwyd wedi'i adgyfogi ac wedi'i dorri i

mewn i farnau diddiwedd wedi'u teipio. Roedd ymateb y tu allan i'r cwestiwn neu gytuno i gyfweiliad gan y byddai hyn yn creu mwy o adlach. Ni allwn amddiffyn fy hun, roedd lluniad ohonof wedi'i chreu a dim ond amser a fyddai'n caniatáu imi ail-ymgynnull hyn. Roedd camdriniaeth, beirniadaeth a negyddoldeb cyffredinol i gyd yn ymdoddi i gryswth digymysg, organeb ddigidol o farn pobl na fyddent efallai byth yn ei ddweud yn uchel.

Roedd emosiwn newydd yn datod ynof. Roeddwn i eisiau diflannu. Roedd yr arfer yr oeddwn wedi'i ddatblygu bellach wedi'i llychwino ac roeddwn i'n meddwl tybed a ddylwn ei daflu'n llwyr. Roeddwn i wedi cael fy nghafnu allan a gadael gydag olion gimig cragen denau. Erbyn hyn roeddwn yn cael fy ystyried yn ferch wirion, anaeddfed ac arwynebol. Nid person ond yn hytrach ategolyn benywaidd i faterion go iawn. Roedd yr hyn a oedd yn cael ei ddweud amdanaf ar-lein yn teimlo'n estron o'r adeg pan edrychais yn y drych neu siarad â ffrind. Roedd pob e-bost hap neu ymgais i gyfathrebu o'r storm gyfryngau hon yn teimlo fel pe bawn i'n edrych dros glogwyn.

Cymerodd amser i mi ddatod cael fy ail-ysgrifennu fel gimig ac rwy'n amau y byddaf byth yn ei ddianc yn llwyr. I ddechrau, roeddwn i'n teimlo fy mod i wedi cael fy mwrglera, fel petai'r holl egni, sylw a ffocws roeddwn i wedi'i roi i mi fy hun wedi'i orfodi i ddadfeilio. Roedd fy nealluswydd wedi ei dynnu oddi wrthyf, fel pe na bai fy ngwaith yn waith o gwbl ond jôc neu ddim ond sgil effaith wamal y rhyfeloedd diwylliant. Ar yr un pryd, roedd y gimig o fy hun yn teimlo fel pe bawn i'n gweithio'n rhy galed ond yn methu oherwydd fy nealluswydd annigonol a fy hyder annifyr. Fel rhywun nad yw'n berchen ar ddim, fy ngwaith yw'r unig beth rwy'n teimlo sy'n wirioneddol yn eiddo i mi ond nawr nid oedd yn teimlo ei fod yn wir yn eiddo i mi o gwbl. Fel rhywun nad yw'n berchen ar ddim, fy ngwaith yw'r unig beth rwy'n teimlo sy'n wirioneddol i mi ond nawr nid oedd yn teimlo ei fod yn wir i mi o gwbl. Mae gimig yn hynod gyfyngol, y ffurf adloniant fwyaf ebrwydd lle gwrthodir unrhyw ymchwiliad pellach iddo, ni chaniateir iddo dyfu a gellir eu diffinio dim ond o fewn y waliau symledig a boddhaol hynny. Erbyn hyn roeddwn yn rhad ac yn arwynebol ond er yr holl deimlad a chlecs a oedd yn fy nghylchynu yn y gwahanol benawdau, roedd gen i bŵer diymwad i'r hyn a oedd wedi ei gasglu yr oedd angen i mi ei ddeall. Roedd angen i mi afael y bwlch newydd hwn ac nid oedd ateb cyflym.

Rwyf wedi cael fy ngadael ag aflonyddwch dwfn ar sut y gallai unrhyw un eisiau bod yn enwog, ni allaf ddirnad sut y gallai unrhyw un eisiau cymaint o sylw. Nid wyf eisiau fod yn enwog nac yn arwr ond yn bod dynol sy'n gallu cysylltu â bodau dynol eraill. Roeddwn i eisiau cuddio, roeddwn i eisiau lle yn fy ymennydd a oedd wedi cael ei ddwyn oddi wrthyf ond ceisiais hefyd resymoli y gallai hyn wedi bod yn llawer gwaeth a bod nifer o bobl wedi derbyn llawer mwy o drais na minnau.

Ar wahân i'r diflastod o afloneisrwydd dynol gwrywaidd y cefais fy hun yn rhydio drwodd am fisoedd i ddod, roedd miloedd o sylwadau cadarnhaol a dathliadol dros yr hyn yr oedd cyfryngau cymdeithasol rhyddfrydol a chwith yn barnu fy mod i'n ei wneud. Fodd bynnag, tristwch y ganmoliaeth hon oedd ei bod bron yn gyfan gwbl un dimensiwn o'i chymharu â'r affwys o gamdriniaeth o'r dde. *'Byddwn i wrth fy modd yn ei gweld hi mewn ystafell gyda Trump'*, *'Nid yw pob arwr yn gwisgo clogyn, mae rhai yn gwisgo lledr!'*, *'Goals!'* neu *'Mae hi'n Frenhines'* i gyd yn gyfeillgar i'w darllen ar ôl darganfod tudalennau diddiwedd o gasineb cywrain o incels, fodd bynnag, gadawodd y geiriau optimistiaeth hyn yn ddideimlad, fel pe bai'r positifrwydd hwn yn ymateb i gasgliad pecyn-fflat o fy mywyd tybiedig, blwch digidol pinc llychlyd ar gyfer y genhedlaeth 'girlboss' i lyncu gyda phump uchel rhithwir cyn sgrolio i lawr i'r rhithlun nesaf o ddilyniant cymdeithasol ar eu llinellau amser. Mewn gwirionedd roedd yn ymddangos bod yr un datganiadau hyn yn cael eu hailadrodd drosodd a throsodd, fel pe na bai barn unigol yn bodoli y tu allan i ddatganiadau syml rhag ofn cael eu 'hepgor' neu 'canslo', cafodd iaith ryddfrydol a chwith bellach ei ddiwydiannu ac felly'n ddi-gyfeiriad. Mae hwn yn amser am ddim risg ac felly marweidd-dra sydd ddim ond yn cynyddu fy anobaith.

Mewn oes o greu nwydd o ffeministiaeth roeddwn wedi dod yn stori od i bori cyn symud ymlaen yn sionc i'r abwyd-clic nesaf. Gyda'r arfarniad chwith simsan hwn gwelais sut oedd mwyafrif ohonom fel ochr wedi methu, pa mor brin o gymhlethdod neu strategaeth oeddem a pha mor fas oedd ein bwriadau lle'r oedd y de bellach yn dadadeiladu gyda'r pwrpas o adeiladu yn ôl i fyny.

Roeddwn i wedi dod i mewn i fyd o wrthdaro heb gorff a wnaeth fy nghylchdroi ar gyflymder o gynnwrf yn wahanol i unrhyw beth y gallwn i byth ddod yn agos at ei ddeall. Nid oedd yr egni hwn yn dwyn unrhyw atebion ac ymosododd ar fy ymennydd o bob ongl. Byddwn yn siarad â ffrindiau a theulu a byddai'r cyngor hefyd yn mynd yn amhendant. Dywedodd rhai 'Beth oeddet ti'n disgwyl gyda'r hyn wyt ti'n gwneud?' Nid oedd fy mam, er ei bod ei hun yn sosialydd pybyr yn deall fy nghynnwrf meddwl yn llawn. Mae yna fwlch cenhedlaeth dros sut mae gwybodaeth yn cael ei brofi ac mae hyn wedi gwneud gwleidyddiaeth yn amhosibl.

Roedd storm y cyfryngau wedi symboleiddio diwedd ar ddiniweidrwydd. Nid oeddwn bellach yn llywio'r byd yn fy ffordd fy hun, yn lle hynny roedd dyfarniadau treisgar di-le newydd yn barod i neidio ar unrhyw adeg ac roedd pobl ddi-rif yn gweld fy ngwaith a fy mywyd fel stynt ffiائد. Mae trais yn beth go iawn ac yn bresennol erioed ond nawr mae gan y bobl hyn fanylion amdanaf i. Roedd y dynion hyn eisiau i mi gael fy nghosbi a fy nhawelu, roeddwn i wedi camu allan yn rhy bell o'u cyfyngiadau o fenywaeth rhithiol ac roedd angen i mi gael row am y peth.

Profais y cynnwrf hwn ar fy mhen fy hun, pob sylw neu erthygl newydd amdanaf a welais yn unigol. Roedd hyn yn golygu na fyddai'r hyn a brofais erioed yn cael ei fynegi na'i rannu'n iawn. Doeddwn i ddim eisiau edrych ar y geiriau hyn, ond byddwn weithiau'n llithro i mewn i ymchwiliad ac yn tynnu fy hun i fyny pan roeddwn i'n teimlo bod fy nghorff yn rhewi a fy ngwddf yn cau i fyny. Sut allwn i edrych i ffwrdd? Roedd hwn yn ffurf fodern iawn o unigrwydd a ysgogwyd yn ddigidol. Byddwn yn cael fy nghynghori gan fy anwyliaid na ddylwn ddarllen y sylwadau ond roeddwn i'n gwybod nad fi oedd yr hyn a oedd yn cael ei ddweud amdanaf - roedd yn ymwneud â phopeth arall ac rydw i eisiau deall casineb ac ofn cyfoes a sut mae'r ymarferion dynol hyn yn rheoli rhyddid. Mae yna wyrddroad am eisiau darllen y barnau hyn, archwaeth yn gwanhau i weld y gwaethaf, i syfrdanu fy hun. Ar yr un pryd, doeddwn i ddim eisiau bod yn fi fy hun, na beth bynnag oedd y crynhoad hwn y credwyd fy mod i. Roeddwn i wedi cael llond bol ar fy hun.

Os oedd rhai yn teimlo mai jôc oedd fy ngwaith, pa bryder wnaeth hyn ei gywasgu gan y rhai oedd yn chwerthin arna i? A pha ddiogelwch a roddais i'r rheini sy'n fy llongyfarch? Efallai am ychydig rhoddais i bobl rhywun i feio.

Wrth ddarllen y gamdriniaeth newydd hwn, cwmpodd fy ego a bregusrwydd i'w gilydd. Ble mae'r Feistres Rebecca yn cychwyn a Reba Maybury yn gorffen? Pwy oedd y bobl hyn yn fy mrandio â thonnau o negyddiaeth ddiddiwedd ac ydyn nhw hyd yn oed yn bwysig? Cyfeillgarwch a'm tynnodd trwy hyn.

Mae Reba Maybury (1990) yn arlunydd, awdur a dominyddes gwleidyddol sydd weithiau'n gweithio dan yr enw Meistres Rebecca. Mae ei gwaith yn archwilio'r tensiwn rhwng ei chryfder canfyddedig fel gwrthrych ffantasi drafodaethol a sut, trwy realiti gwaith rhyw, y mae'n troi'r pŵer hwn yn rhywbeth cyffyrddadwy. Mae llawer o'i hymarfer celf yn cael ei greu'n gorfforol gan ei ymostyngwyr trwy ei chyfarwyddiad fel ffordd i hyrwyddo anghydbwysedd cymhleth llafur o dan waith rhyw a cheisio ei grymuso ymhellach na dymuniadau'r dynion, gan ei gadael gyda mwy na thaliad ganddynt yn unig. Mae themâu cyfalaf, llafur, rhywioldeb, gwyrddroad menywod, biwrocratiaeth fel artaith a chywilydd corfforaethol yn themâu hanfodol i'w hymarfer. Ymhlith y sioeau diweddar mae *Faster than*

*an erection*, MACRO, Yr Eidal (2021); *Moralists at a Costume Party*, HKFD (2021) Denmarc a *A-good-individual*, Luma Westbau, Swistir (2019). Enwir ei nofel gyntaf *Dining with Humpty Dumpty* (2017) a *Faster than an erection* yn gyhoeddiad newydd, theori a methodoleg i'w dominiad gyda cherdd gan Cassandra Troyan a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan MACRO (2021).